TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU



# Y Broses Drwyddedu ar Waith

**Adolygiad Blynyddol Trwyddedu Teledu**
2014/15

# Sut y gwnaethom eleni?

Ein gwaith ni yw casglu ffi'r drwydded; drwy sicrhau bod pawb sydd angen trwydded yn meddu ar un er mwyn casglu cymaint o arian â phosibl ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC. Eleni, casglwyd mwy o refeniw na'r flwyddyn flaenorol, llwyddwyd i gadw cyfraddau osgoi yn isel, a chadwyd ein costau ar lefel isel iawn, sef 2.7c am bob £1 a gesglir am yr ail flwyddyn yn olynol.

**Incwm o ffi'r drwydded:**


# £3,735m

**I fyny:**

# £13m

**o gymharu â'r llynedd**

**Trwyddedau sydd mewn grym**



## Cost casglu'r ffi -

# 2.7p

**Dim ond 2.7c am bob £1 a gesglir**

Mae costau casglu yn cynnwys canolfannau galwadau, swyddogion ymholiadau, canfod a gwasanaethau dros y cownter

**£71.7m**

+

Dibrisiant systemau newydd

**£2.2m**

+

Cyfathrebu yn cynnwys llythyrau ac e-byst atgoffa

**£14.1m**

+

Cost postio

**£10.8m**

+

Gweinyddu a rheoli contractau

**£2.6m**

= **Cyfanswm**

**£101.4m**

**Dim ond 5-6%* sy'n osgoi talu'r ffi, felly mae 94-95% o gartrefi a busnesau wedi'u trwyddedu'n gywir.**

**Yn 2014/15, collodd y BBC rhwng £195 miliwn a £234 miliwn mewn refeniw oherwydd pobl a oedd yn osgoi talu'r ffi.**

**Derbyniwyd 18,000 o gwynion, gostyngiad o 1.8% o gymharu â'r 18,300 a gafwyd y llynedd. Mae hyn ond yn cynrychioli un gŵyn am bob 1,390 o drwyddedau sydd mewn grym (0.07%).**

* *Nodir cyfraddau osgoi o fewn ystod, gan mai amcangyfrifon yw rhai o'r ffigurau a ddefnyddir yn y cyfrifiad. Nid yw newidiadau o lai nag 1 y cant yn ystadegol arwyddocaol.*

# Sut y gwnaeth ein cwsmeriaid gysylltu â ni?

Mae ein cwsmeriaid yn cysylltu â ni ac yn talu am eu trwydded mewn amryw o wahanol ffyrdd. Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau ei bod yn hawdd i bobl dalu ar-lein, p'un ai drwy ddefnyddio cyfrifiadur neu ffôn clyfar.

**Eleni, gwnaethom optimeiddio ein gwefan ar gyfer ffonau symudol. Cafodd y safle 7.1 miliwn o ymweliadau gan ddyfeisiau symudol yn 2014/15, 42% o'r holl ymweliadau â'r wefan. Mae hyn i fyny o 5.4 miliwn yn 2013/14**

**Sut mae ein cwsmeriaid yn talu**

| | |
|---|---|
| Debyd Uniongyrchol | **72.6%** |
| Cerdyn Credyd/Debyd | **10.4%** |
| Cerdyn talu (arian parod) | **7.9%** |
| PayPoint | **4.6%** |
| Siec drwy'r post | **2.6%** |
| Cerdyn cynilo | **1.7%** |
| Bancio ar-lein | **0.2%** |
| Swyddfa'r Post (Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) | **0.1%** |




**Debyd Uniongyrchol** **Arall**

Yn 2014/15, gwnaeth mwy na 3 o bob 5 person a oedd am brynu trwydded ddefnyddio ein gwefan i gysylltu â ni.



**3/5**

I fyny o 1 o bob 3 yn 2008/09.




Dewisodd bron 4 o bob 5 cwsmer a brynodd drwydded ar-lein dderbyn eu trwydded drwy e-bost.



**4/5**

Cynhaliodd cwsmeriaid 6 miliwn o drafodion ar ein gwefan, bron deirgwaith y nifer yn 2008/09 (2.25 miliwn).




## Atebodd ein tîm gwasanaethau cwsmeriaid 5.9 miliwn o alwadau ffôn - 7% yn llai na'r llynedd, wrth i fwy o bobl ddefnyddio ein gwasanaethau ar-lein.

# Sut y gwnaethom gyrraedd ein cwsmeriaid?


Rydym yn cyrraedd pobl mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys drwy negeseuon e-bost a negeseuon testun, dros y ffôn, drwy'r post, drwy ymweld â chartrefi a thrwy ein gwefan. Rydym yn dewis y ffordd gywir o gysylltu â phobl yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, ac yn blaenoriaethu sianeli digidol lle y bo'n bosibl.

**10.6m**

Anfonwyd 10.6 miliwn o negeseuon e-bost at gwsmeriaid, i fyny o 9.4 miliwn y llynedd

2014/15
**10.6m**

2013/14
**9.4m**



**13%**
o gynnydd

**25m o bobl**

**Gwnaethom gyrraedd 25 miliwn o bobl drwy'r cyfryngau gyda gwybodaeth bwysig ynghylch pryd y mae angen trwydded, ffyrdd o dalu, a chonsesiynau.**

**3.9m**

**Ymwelodd ein swyddogion â 3.9 miliwn o gyfeiriadau er mwyn gweld a oedd angen trwydded arnynt.**

**4.4m o filltiroedd**

**Mae ein tîm o swyddogion ymholiadau yn cerdded ac yn gyrru dros 4.4 miliwn o filltiroedd bob blwyddyn.**

# Sut y gwnaethom weithio gyda phartneriaid?

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau partner er mwyn cyrraedd pobl sy'n ei chael hi'n anodd aros yn drwyddedig am resymau ariannol, neu sy'n cael anhawster deall pryd y mae angen trwydded arnynt. Mae hyn yn gynnwys grwpiau cyngor ariannol lleol a chenedlaethol, grwpiau i bobl sy'n colli eu golwg, grwpiau i bobl oedrannus, grwpiau lleiafrifol a grwpiau ffydd, yn ogystal â sefydliadau busnes ac awdurdodau lleol.

**Gwnaethom weithio gyda 430 o sefydliadau lleol a chenedlaethol yn 2014/15, gan gynnwys:**

**143** o grwpiau cyngor ariannol

**40** o gymdeithasau tai

**38** o grwpiau lleiafrifol a chrefyddol

**89** O'r rhain, gwnaethom weithio mewn partneriaeth ag 89 o grwpiau er mwyn rhoi cyngor ariannol yn y gymuned drwy gynnal gweithdai cynhwysfawr a chymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi sefydliadau.

**96%**

**Roedd 96% o'n rhanddeiliaid yn cytuno ein bod yn darparu gwasanaeth defnyddiol drwy gynnal gweithdai a sesiynau briffio i sefydliadau cymunedol a chyngor ariannol.**

**Gwnaethom weithio gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) i godi ymwybyddiaeth o'r consesiwn o 50% i bobl ddall (pobl â nam difrifol ar eu golwg), ynghyd â thimau o Age UK, Age Cymru, Age Scotland ac Age NI, a ddosbarthodd fwy na 43,000 o gardiau post yn eu siopau a oedd yn sôn am y Drwydded Deledu am ddim i bobl dros 75 oed.**

**50%**

**Consesiwn o 50% i bobl ddall**
*(â nam difrifol ar eu golwg)*

**43,000**

**Dosbarthwyd 43,000 o gardiau post**

**Dosbarthwyd dros 113,000 o daflenni a chanllawiau Trwyddedu Teledu drwy ein sefydliadau partner a chyrhaeddwyd hyd at 617,000 o bobl drwy Twitter.**

**113,000**

**o daflenni Trwyddedu Teledu**

**617,000**

**Cyrhaeddwyd 617,000 o bobl drwy Twitter**

# Sut y gwariwyd ffi'r drwydded

Gallwch weld sut y gwariwyd ffi'r drwydded yn 2014/15 drwy fynd i wefan y BBC

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU

Ewch i wefan Trwyddedu Teledu

Preifatrwydd